# Cyfryngau cymdeithasol

Mae’r cyfryngau cymdeithasol ymhobman y dyddiau yma - mae’n amhosibl dianc. Wel, fe elli di mae'n debyg, petaet ti'n taflu dy ffôn drwy’r ffenestr, symud i Antarctica, a chuddio mewn cwpwrdd.

Ond i fod yn onest, nid dyna'r dull mwyaf effeithiol o hyrwyddo na chodi ymwybyddiaeth o broject.

Ond mae'r cyfryngau cymdeithasol yn wych am wneud hyn. Gelli di ddenu cwsmeriaid mewn chwinciad. Ac mae'n rhad.

Ond er mwyn bod yn effeithiol, rhaid ystyried pedair rheol aur y byd marchnata.

Rheol un: Cynnig rhywbeth at ddant pawb.

Na, does dim angen cynnig bwydydd gwahanol i blesio pawb. Ond mae'n bwysig cofio pa fath o bobl rwyt ti'n ceisio eu denu, a pha un o'r cyfryngau cymdeithasol fyddai'n apelio fwyaf at dy gynulleidfa darged.

Er enghraifft, os wyt ti eisiau hyrwyddo sglefrfwrdd newydd, paid â hysbysebu ar wefan ddetio i’r henoed.

Hefyd, pa fath o bost neu neges sy'n mynd i weithio orau? Neges ysgrifenedig, fideo, lluniau neu gyfuniad o'r tri?

Rheol dau: Dal sylw'r gynulleidfa.

Sori, DAL SYLW'R GYNULLEIDFA!

Beth sy'n mynd i sefyll allan a chreu argraff? Mae llun pryfoclyd, neu fideo byr yn fwy trawiadol na geiriau'n unig, am fod lluniau'n cyfleu llawer mwy o wybodaeth yn syth.

A phan wyt ti'n defnyddio geiriau, defnyddia bennawd byr, cofiadwy. Gelli di wastad fanylu nes ymlaen, unwaith i ti ddal sylw’r gynulleidfa.

Wrth gwrs, gallet ti bostio ac ail-bostio yr un neges dro ar ôl tro, ond dyw hynny ddim yn debygol o apelio ryw lawer. Safon, nid nifer, sy'n cyfrif.

Rheol tri: Creu trafodaeth.

Y peth ffantastig am y cyfryngau cymdeithasol yw eu bod yn ffordd wych o ddechrau sgwrs. Elli di ddim yn hawdd ddechrau sgwrs gyda phoster mewn gorsaf fws - wel, gelli di drio, ond byddai fe'n edrych braidd yn od. Ond os wyt ti eisiau codi ymwybyddiaeth o elusen, gallet ti ddechrau trafodaeth fywiog ar-lein a chynnwys llwyth o bobl yn y sgwrs.


© Hawlfraint BBC

Ac mae 'na fwy nag un ffordd o greu perthynas rhyngot ti a'r gynulleidfa – hola gwestiynau, rhanna jôcs, gofynna am adborth.

Tria berswadio pobl eraill i hoffi a rhannu dy negeseuon di trwy ddefnyddio llun neu hashnod. Bydd dy neges di'n teithio'n bell heb i ti wario ceiniog.

Gyda chymaint o blatfformau a ffyrdd gwahanol o gysylltu, mae'n hawdd colli gafael ar beth wyt ti'n trio ei wneud, sef trio hyrwyddo rhywbeth.

Rheol pedwar: Creu dolen gyswllt.

Dyw e ddim yn ddigon bod pawb ar-lein yn siarad am ba mor wych yw dy nwyddau di. Ychwanega ddolen i wneud yn siŵr fod pobl yn gwybod ble i gael hyd i ti a sut i brynu dy gynnyrch di.

Yr unig beth arall i'w gofio yw: bydda'n ofalus. Mae negeseuon yn gyhoeddus ac i'w gweld drwy'r byd i gyd. Am byth.

Felly, cofia ofyn am ganiatâd pobl cyn rhannu llun ohonyn nhw, a phaid byth â rhannu gwybodaeth bersonol. Mae enw cyntaf yn iawn, ond does dim angen nodi dy gyfenw, enw dy ysgol di na lle rwyt ti'n gweithio nag yn byw. Meddylia ddwy waith cyn gwasgu 'danfon'.

A dyna'r cwbl sydd angen ei gofio. Dipyn mwy effeithiol na threulio amser yn cuddio mewn cwpbwrdd.


© Hawlfraint BBC